



Nod y Gyngres Undebau Llafur (TUC) yw gwneud y byd gwaith yn lle gwell i bawb. Gyda dros 48 o aelod-undebau, rydym yn dod â dros 5.5 miliwn o bobl sy'n gweithio at ei gilydd. Rydym yn cefnogi undebau i dyfu a ffynnu, ac rydym yn sefyll dros bawb sy'n gweithio i ennill bywoliaeth. Ymunwch â ni.

Cyngres Undebau Llafur Cymru yw'r awdurdod datganoledig ar gyfer undebau yng Nghymru, a'n nod ni yw gwneud Cymru yn genedl gwaith teg.

Mae swydd wag ar gael yn TUC Cymru yng Nghaerdydd CF11 9SD.

### **Swyddog Polisi a Chymorth Cyfathrebu**

**Cyfeirnod y Swydd: OSSD.03.20**

**Gradd 6 £35,785 y flwyddyn**

**Contract cyfnod penodol hyd at 31<sup>ain</sup> Mawrth 2022**

Rydym yn chwilio am unigolyn brwdfrydig iawn fyddai'n mwynhau'r amrywiaeth mae'r rôl hon yn ei gynnig ac yn hoffi ymuno â'n tîm.

### **Pa brofiad, sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth sydd eu hangen arnoch?**

- Bydd gennych brofiad o reoli prosiectau a byddwch yn gwybod pa mor bwysig yw cyfathrebu, cynllunio a threfnu gwaith
- Bydd gennych brofiad o drefnu digwyddiadau
- Bydd gennych ddealltwriaeth dda o'r prif faterion sy'n effeithio ar TUC Cymru – o wasanaethau cyhoeddus i'w rôl ddatganoledig yn y TUC

Os gallwch chi weld eich hun yn y rôl, gallwch gael rhagor o wybodaeth yn ein pecyn ymgeisio.

Mae'r swydd yn agored i drefniant rhannu swydd. Bydd angen i chi wneud cais gyda phartner rhannu swydd a bydd angen i'r ddau ohonoch gyflwyno eich ffurflenni cais eich hunain.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan unrhyw ymgeisydd ond rydym yn arbennig o awyddus i dderbyn ceisiadau gan ymgeiswyr du a lleiafrifoedd ethnig, sy'n cael eu tangynrychioli ar y raddfa hon yn TUC. Os ydych chi'n bodloni'r gofynion hyn a bod gennych chi ddiddordeb yn y swydd, byddem yn falch o'ch briffio mewn sesiwn **nos Fawrth 25 Chwefror 2020** yn 1 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF19SD. Os hoffech chi ddod i'r sesiwn briffio, anfonwch e-bost at [jobs@tuc.org.uk](mailto:jobs@tuc.org.uk) erbyn **12pm ddydd Gwener 21 Chwefror 2020**. Does dim angen i chi ddod i'r sesiwn briffio er mwyn gwneud cais.

Y dyddiad cau i anfon ceisiadau ar gyfer y swydd hon yw **12pm ddydd Gwener 28 Mehefin, 2020**. **Dyddiad y cyfweiliadau i'w gadarnhau.**

Mae staff TUC yn cael pecyn buddion da, gan gynnwys cynllun pensiwn cyflog terfynol a buddion eraill.

Gallwch lwytho pecyn i lawr o <https://www.tuc.org.uk/jobs>, anfon e-bost at [jobs@tuc.org.uk](mailto:jobs@tuc.org.uk) neu adael neges llais ar 020 7467 1340. Nodwch gyfeirnod y swydd rydych chi'n gwneud cais amdani.